WG35 s 213

# GALAR GWYN

Ar ol HENRY WILLIAMS, wyr i Mr. WILLIAM WILLIAMS, Thomas-street, Merthyr. Bu farw Mehefin 21, 1888, yn naw mlwydd a dau fis oed.

Dihuna, dydi fy awenydd,
  Mae genyf drwm newydd yn awr,
A d'wed i'm perth'nasau diledryw
  Sy' heddyw yn fyw ar y llawr;
Daeth angeu i wneuthur oer rwygiad,
  Mae'n friwiad i deimlad tra dwys—
Gwel'd plentyn fel rhosyn yn gwywo,
  I'w briddo a'i guddio tan gwys.

Yr angeu wnai'n drom fy nhynghedfen
  Drwy fwrw fy machgen i'w fedd,—
Terfynwyd, ei ddyddiau orphenwyd,
  Yn fuan newidiwyd ei wedd;
Er iddo ymddangos am flwyddi
  Fel claerwyn flodeuyn ar dir,
Ei degwch y sy' wedi gwywo,
  A i harddwch aeth heibio cyn hir.

Er iddo arogli'n bêr flodyn,
  Fel lili neu rosyn o'r ardd,
Ow! gwelwn, fe wywodd yn ebrwydd,
  Oer lwydodd ei ddwy rudd oedd hardd;
Fel gollodd ei harddwch trybelid
  Gan wendid, a'i lendid di-len,
Mewn beddrod o dywod yn dawel,
  Fy machgen sy'n isel ei ben.

Yn naw mlwydd a dau fis o oedran,
  Aeth, druan, yn fuan i'w fedd,—
Ehedodd fry ymaith yn dawel
  O ganol y rhyfel i'r hedd;
Gan iddo ddyoddef hir gystudd,
  Yr ydoedd yn ddedwydd ddiau,
Ei weled yn dianc o'i adfyd
  I wynfyd o hyd i barhau.

Diangodd rhag myrdd o beryglon,
  A chwerwon drallodion y llaw,—
Ffarweliodd â phob gofid mwyach—
  Nid ydyw yn afiach yn awr;
Ei anwyl, hoff riaint sy'n wylo,
  Ac eto'n bendithio eu Duw
Am iddo gymeryd yn ernes
  Eu bachgen i'w fynwes i fyw.

Yn foreu dadblygodd alluoedd
  Tu hwnt i'r cyffredin o'i oed,
Mewn dysgu, a chanu, ac adrodd,
  Nes synu'r gwrandawiad a roed;
Ond heddyw cystadla yn y nefoedd
  Mewn pyncio cerddoriaeth i'r Oen
Am iddo'n dragywydd ei wared
  O'i glefyd, ei benyd, a'i boen.

Rhyw hoffder serchiadol oedd ynddo
  Na chaiff ei anghofio yn hir,
Fel nad ydoedd neb a'i adnabu
  Nad oeddynt'n garu mewn gwir;
Ni gawsom ei fagu a'i feithrin
  Yn anwyl am flwyddi, gwir yw,—
Rhyfeddem pe gwelem e'n gwirfab
  Mor llawen a hyfryd ei liw.

Boddlonwn, na fyddwn anniddan,
  Mae Harri yn wiwlon ei wawr,
Yn canu a'i delyn aur hyfryd,
  A nofio mewn gwynfyd yn awr;
Nid oes yno seraph mwy siriol,
  Nac angel mwy gwychol nag ef,—
Mae'i danau, diamheu, mor dynion
  A heirdd delynorion y nef.

Mae'n dawel uwch gafael pob gofid,
  Ni chwyna oblegyd un pla,
Blodeuo mewn iengtyd tragwyddol
  Mewn oes annherfynol a wna;
Er rhoddi ei gorff i'r priddellau,
  Tan gloau a barau y bedd,
I'w alw y daw ei Anwylyd
  I wynfyd, a hawddfyd, a hedd.

Bydd yno yn dra gogoneddus,
  A'i waith, O! mor felus a fydd,
Yn bloeddio y goncwest ar angeu
  'Nol dianc o'i rwymau yn rhydd;
Llafuriwn am gael myned ato
  Pan ddelo ein gyrfa i ben,
Ac yna tragwyddol gyd-ganwn
  Ag ef—hyn ddymunwn. Amen.

Ow! am Harri y mae hiraeth—yn llanw'm
  Holl anian âg alaeth;
O'i golli mae argyllaeth,
Wyf dan gur ei fod yn gaeth.

Hoen fudodd ei hanfodiaeth—i nefol,
  Nwyfus, bur dirogaeth;
Ac o'i boen yn gerub aeth,
Uwch dolur, i iach dalaeth.

Merthyr.

EI DAID.

Y205 31708U